# Polisi Preifatrwydd Recriwtio Prifysgol Abertawe

Polisi Preifatrwydd Recriwtio Prifysgol Abertawe

## 1 Gwybodaeth Gyffredinol

Rydym yn ymrwymedig i warchod preifatrwydd a diogelwch eich gwybodaeth bersonol.

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, rydym yn "rheolydd data". Mae hyn yn golygu ein bod yn cadw data personol amdanoch chi a'n bod yn gyfrifol am benderfynu sut rydym yn storio ac yn defnyddio'r wybodaeth bersonol honno.

Fel rheolydd data, mae dyletswydd gyfreithiol arnom i ddarparu gwybodaeth benodol i unigolion rydym yn cadw, yn casglu, yn caffael, yn storio ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanynt. Mae'r wybodaeth honno wedi'i chynnwys yn y ddogfen hon (ein "hysbysiad preifatrwydd").

Mae'n bwysig eich bod yn darllen y ddogfen hon (ynghyd ag unrhyw hysbysiadau preifatrwydd eraill y gallwn eu darparu i chi ar adegau penodol), fel eich bod yn ymwybodol o sut a pham rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch gwybodaeth bersonol.

Mae'r Polisi Preifatrwydd hwn yn berthnasol i bob swydd yn y Brifysgol.

Byddwn yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Yn ôl y ddeddfwriaeth hon, mae'n rhaid bod yr wybodaeth bersonol rydym yn ei chadw amdanoch yn cydymffurfio â'r meini prawf canlynol:

1. Caiff ei defnyddio mewn modd cyfreithlon, teg ac agored.
2. Caiff ei chasglu at ddibenion dilys rydym wedi'u hesbonio i chi'n glir yn unig ac ni chaiff ei defnyddio mewn unrhyw ffordd sy'n anghydnaws â'r dibenion hynny.
3. Mae'n berthnasol i'r dibenion rydym wedi'ch hysbysu amdanynt ac yn gyfyngedig i'r dibenion hynny yn unig.
4. Mae'n gywir ac yn gyfredol.
5. Ni chaiff ei chadw am gyfnod hwy na sy'n angenrheidiol i gyflawni'r dibenion rydym wedi'ch hysbysu amdanynt.
6. Chaiff ei chadw'n ddiogel.

## 2 Pa wybodaeth rydym yn ei chadw amdanoch chi?

Fel ymgeisydd am swydd yn y Brifysgol, byddwn yn gofyn i chi roigwybodaeth bersonol inni mewn perthynas â'ch cais a thrwy'r broses recriwtio.

Mae deddfwriaeth diogelu data'n gwarchod gwybodaeth bersonol, sef, yn ei hanfod, unrhyw wybodaeth sy'n galluogi rhywun i adnabod unigolyn. Ceir math penodol o wybodaeth bersonol sy'n destun mesurau diogelu ychwanegol oherwydd ei natur sensitif neu breifat. Weithiau, cyfeirir at hyn fel 'gwybodaeth o gategori arbennig' megis gwybodaeth bersonol am hil, tarddiad ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth undeb llafur (neu ddiffyg aelodaeth), gwybodaeth am eneteg, gwybodaeth fiometrig (lle defnyddir hon i adnabod unigolyn) a gwybodaeth am iechyd, bywyd rhywiol neu dueddfryd rhywiol unigolyn.

Cesglir yr wybodaeth hon naill ai'n uniongyrchol gan ymgeiswyr, neu weithiau caiff ei chasglu gan asiantaeth gyflogaeth neu ddarparwr gwiriad cefndir. Weithiau gallwn gasglu gwybodaeth ychwanegol gan drydydd partïon, gan gynnwys cyn-gyflogwyr, asiantaethau gwirio statws credyd neu asiantaethau eraill sy'n gwneud gwiriadau cefndir, gweinyddwr pensiwn, gweithwyr meddygol

proffesiynol, gweithwyr eraill, y Swyddfa Gartref, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, cyfleusterau mewnrwyd a'r rhyngrwyd, cyrff proffesiynol perthnasol.

Bydd yr wybodaeth y byddwn yn ei chasglu yn ystod eich cyflogaeth/cysylltiad â ni yn cynnwys:

- Eich enw, eich cyfeiriad a'ch manylion cyswllt
- Eich dyddiad geni
- Eich rhyw
- Eich addysg a'ch cymwysterau
- Eich sgiliau, eich profiad a'ch aelodaeth o gyrff proffesiynol
- tystiolaeth o'ch gallu i weithio yn y DU, eich cenedligrwydd a'ch statws mewnfudo
- Eich trwydded yrru
- Gwybodaeth a ddarperir amdanoch gan eich cyn-gyflogwyr neu gyflogwyr a chanolwyr eraill
- Eich hanes cyflogaeth
- Gwybodaeth a gasglwyd yn ystod y broses recriwtio y byddwn yn ei chadw yn ystod eich cyflogaeth
- Manylion am unrhyw rolau neu benodiadau neu fuddiannau busnes eraill sydd gennych
- Unrhyw hyfforddiant rydych chi wedi'i gwblhau
- Unrhyw wybodaeth bersonol arall rydych yn ei rhannu â ni, gan gynnwys ffordd o fyw ac amgylchiadau cymdeithasol
- Unrhyw addasiad(au) rhesymol a wnaed i'ch rôl neu'ch gwaith dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

## 3 At ba ddibenion y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol a beth yw ein seiliau cyfreithiol dros wneud hynny?

3.1 Rydym yn defnyddio'r wybodaeth bersonol rydym yn ei chadw amdanoch am y rhesymau canlynol:

- Cydymffurfio a dangos cydymffurfiaeth â'n rhwymedigaethau cyfreithiol, megis gwirio bod gennych hawl gyfreithiol i weithio yn y DU, didynnu cyfraniadau treth ac Yswiriant Gwladol, cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb a chyfreithiau cyflogaeth eraill
- Atal twyll
- Cydymffurfio ârhwymedigaethau iechyd a diogelwch
- Cydymffurfio a dangos cydymffurfiaeth ag unrhyw ofynion cyfreithiol

Yn yr achosion hyn, y sail gyfreithiol y byddwn yn dibynnu arni i brosesu'ch gwybodaeth bersonol fydd gan fod angen i ni wneud hynny er mwyn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol.

3.2 Byddwn hefyd yn defnyddio'r wybodaeth bersonol rydym yn ei chadw amdanoch am y rhesymau canlynol:

- Gwneud penderfyniadau ynghylch eich cais
- Asesu'ch cymwysterau ar gyfer swydd neu dasg benodol

- At ddibenion cyffredinol wrth weinyddu contract neu gyflogaeth
- Monitro cydymffurfiaeth ag unrhyw un o'n polisïau a'n gweithdrefn

Ym mhob un o'r achosion hyn, y sail gyfreithiol dros brosesu'ch gwybodaeth bersonol fydd oherwydd ei bod hi'n angenrheidiol er mwyn cymryd camau ar gais gwrthrych y data cyn ymrwymo â chytundeb gyda ni.

3.3 Byddwn hefyd yn defnyddio'r wybodaeth bersonol rydym yn ei chadw amdanoch am y rhesymau canlynol:

- Asesu gofynion addysg, hyfforddiant a datblygiad
- Sicrhau diogelwch y rhwydwaith a gwybodaeth, gan gynnwys atal mynediad heb awdurdod i'n systemau cyfrifiadurol ac electronig ac atal lledaenu meddalwedd maleisus
- I ymateb i geisiadau am wybodaeth gan sefydliadau allanol megis CCAUC, HEFCE, HESA, ATHENA Swan

Yn yr achosion hyn, y sail gyfreithiol y byddwn yn dibynnu arni i brosesu'ch gwybodaeth bersonol fydd y ffaith bod hynny er lles ein buddiannau dilys. Ein buddiannau dilys penodol yw:

- Bod yn gyflogwr teg a rhesymol mewn perthynas â'ch cyflogaeth/penodiad ac wrth i ni gyflogi/benodi eraill ac i'n galluogi i ddangos arfer da ym maes cyflogaeth a/neu
- Er mwyn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau fel cyflogwr a/neu ein polisïau a'n gweithdrefnau mewn perthynas ag ymgeiswyr i swyddi'r Brifysgol a dangos hynny, a/neu
- Ein galluogi i reoli'r Brifysgol yn effeithiol ac yn effeithlon

## 4 <u>Pa Wybodaeth o Gategori Arbennig rydym yn ei chadw amdanoch chi</u>?

Bydd angen i ni gadw mathau penodol o wybodaeth bersonol o gategori arbennig amdanoch a allai fod yn berthnasol i'ch cyflogaeth, er enghraifft eich:

- Tarddiad hiliol neu ethnig
- Credoau crefyddol neu athronyddol
- Aelodaeth o undeb llafur
- Iechyd corfforol neu feddwl (gan gynnwys manylion am unrhyw anabledd)
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Manylion unrhyw anabledd hysbys
- Manylion unrhyw drosedd a gyflawnwyd gennych, neu honiadau o gyflawni trosedd, gan gynnwys canlyniadau gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ("DBS")

## 5 <u>At ba ddibenion byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol o gategori arbennig a beth yw ein seiliau cyfreithiol dros wneud hynny</u>?

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol o gategori arbennig sydd gennym amdanoch at nifer o ddibenion gwahanol a restrir isod. Mae deddfwriaeth diogelu data yn ein gwahardd rhag prosesu unrhyw wybodaeth bersonol o gategori arbennig oni allwn fodloni o leiaf un

o'r amodau a bennwyd gan ddeddfwriaeth diogelu data. Rydym hefyd yn nodi isod yr amodau penodol rydym yn dibynnu arnynt wrth brosesu data o gategori arbennig.

5.1 Rydym yn defnyddio'r wybodaeth bersonol o gategori arbennig sydd gennym amdanoch at y dibenion canlynol:

- Monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth

Yn yr achos hwn, yr amod rydym yn dibynnu arno i brosesu'r wybodaeth yw'r angen i fonitro cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'n ofynnol i ni wneud hyn am resymau budd cyhoeddus sylweddol, sef at ddibenion nodi neu adolygu diffyg cyfle neu driniaeth gyfartal rhwng grwpiau o bobl a nodwyd mewn perthynas â'r categori hwnnw â'r nod o hyrwyddo neu gynnal cydraddoldeb.

5.2 Rydym hefyd yn defnyddio'r wybodaeth bersonol o gategori arbennig sydd gennym amdanoch at y dibenion canlynol:

- Cydymffurfio a dangos cydymffurfiaeth â deddfwriaeth cyflogaeth ac arfer gorau ac unrhyw gyfreithiau eraill sy'n briodol
- Cydymffurfio a dangos cydymffurfiaeth ag unrhyw ofynion rheoleiddio
- Asesu'ch addasrwydd i weithio
- Gwneud unrhyw addasiadau rhesymol i'ch rôl
- Darparu data perthnasol i sefydliadau allanol (e.e. Athena SWAN, Stonewall etc) i ddangos bod y Brifysgol yn cydymffurfio â'r gyfraith gyflogaeth ac arfer gorau

Yn yr achosion hyn, yr amodau byddwn yn dibynnu arnynt i brosesu'r wybodaeth yw'r ffaith bod hyn yn angenrheidiol at ddibenion cyflawni rhwymedigaethau ac arfer hawliau penodol ym maes deddfwriaeth cyflogaeth.

5.3 Mewn achosion lle mae rhywun wedi dwyn hawliad yn erbyn y Brifysgol, neu le mae risg posib o anghydfod neu hawliad cyfreithiol, efallai bydd angen i ni brosesu'ch gwybodaeth bersonol o gategori arbennig lle mae angen gwneud hynny i sefydlu, arfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol.

5.4. Rydym yn rhagweld y byddwn yn cadw gwybodaeth am gollfarnau troseddol.

Ni fyddwn yn casglu gwybodaeth am gollfarnau troseddol oni bai fod hynny'n briodol oherwydd natur y rôl a lle mae gennym hawl gyfreithiol i wneud hynny. Lle y bo'n briodol, byddwn yn casglu gwybodaeth am gollfarnau troseddol yn ystod y broses recriwtio, neu mae'n bosib y byddwch chi'n rhannu'r fath wybodaeth â ni'n uniongyrchol wrth weithio i ni.

Ni fyddwn yn defnyddio gwybodaeth am gollfarnau troseddol oni bai fod y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny. Fel arfer, bydd hyn lle bo prosesu o'r fath yn angenrheidiol am resymau budd sylweddol y cyhoedd, i atal neu ganfod gweithredoedd anghyfreithlon, i amddiffyn y cyhoedd rhag anonestrwydd, i atal twyll neu os amheuir terfysgaeth neu wyngalchu arian.

Yn llai arferol, gallwn ddefnyddio gwybodaeth ynghylch collfarnau troseddol lle bo angen gwneud hynny mewn perthynas â hawliadau cyfreithiol, lle bo angen amddiffyn eich

buddiannau (neu fudiannau rhywun arall) a lle nad ydych yn gallu rhoi'ch cydsyniad, neu le rydych eisoes wedi gwneud yr wybodaeth yn gyhoeddus.

**6 <u>Gwybodaeth gyffredinol bellach am ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol</u>**

Ni fyddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol ond at y dibenion y cafodd ei chasglu ar eu cyfer, oni bai bod gennym reswm da dros feddwl bod angen i ni ei defnyddio am reswm arall a bod y rheswm hwnnw'n gydnaws â'r diben gwreiddiol. Os oes angen i ni ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol at ddiben nad yw'n gysylltiedig. Byddwn yn eich hysbysu chi ac yn esbonio'r sail gyfreithiol am wneud hynny.

Sylwer, gallwn brosesu'ch gwybodaeth bersonol heb yn wybod i chi a heb eich cydsyniad, gan gydymffurfio â'r rheolau uchod, lle bo hyn yn ofynnol yn ôl y gyfraith neu le mae'r gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny.

Byddwn yn gofyn am rai mathau o ddata personol oherwydd bod dyletswydd gyfreithiol neu o ran contract arnom i gasglu a defnyddio'r wybodaeth, neu le mae'n angenrheidiol i ni gasglu'r wybodaeth er mwyn gallu ymrwymo i gontract gyda chi. Enghraifft o hyn fyddai Deddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006, sy'n gosod dyletswydd arnom i sicrhau bod gennych hawl i weithio yn y DU. Os nad ydych yn darparu mathau penodol o wybodaeth, ni fyddwn yn gallu eich cyflogi neu eich penodi na chyflawni'r contract rhyngom a chi.

Ni fyddwn yn gwneud penderfyniadau awtomataidd neu broffilio ar sail eich gwybodaeth.

## 7 Â phwy rydym yn rhannu'ch gwybodaeth?

Caiff eich data personol ei gadw yn yr Adran AD. Caiff eich data personol ei rannu'n fewnol ag unigolion a/neu adrannau eraill lle bo hyn yn angenrheidiol, o fewn rheswm, at y dibenion prosesu a nodwyd yn adran 2 uchod.

O bryd i'w gilydd, bydd angen i ni rannu'ch gwybodaeth â phobl a sefydliadau allanol. Ni fyddwn yn gwneud hynny oni bai fod gennym sail ddilys neu gyfreithiol dros wneud hynny ac wrth gydymffurfio â'n rhwymedigaethau dan ddeddfwriaeth diogelu data.

Gellir datgelu'ch gwybodaeth i:

- **Asiantaethau cyflogi a recriwtio a sefydliadau lleoliadau gwaith,** er enghraifft, Meara Mann **[insert names where possible]**
- **Ein hymgynghorwyr proffesiynol** gan gynnwys ein cyfrifyddion pan fydd angen hynny i'w galluogi i roi cyngor proffesiynol i ni **[insert names where possible]** Eversheds, Bevan Prydain.
- **Iechyd Galwedigaethol ac ymarferwyr iechyd proffesiynol eraill gan gynnwys sefydliadau cymdeithasol a lles** i roi barn feddygol i ni mewn perthynas ag unrhyw gyflwr meddygol, salwch neu anabledd a allai fod gennych neu y gallwch ei ddatblygu yn ystod eich cyflogaeth/penodiad **[insert names where possible]**

- **Yr Heddlu, awdurdodau lleol, y llysoedd** ac unrhyw un o awdurdodau eraill y llywodraeth pan ofynnir i ni wneud hynny (dim ond lle mae'n gyfreithiol i ni wneud hynny)
- **Pobl eraill sy'n gwneud cais am fynediad gan wrthrych**, lle mae'r gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny.
- **Achwynwyr,** lle mae hyn yn angenrheidiol i ymateb i unrhyw gwynion a dderbynnir
- **Lle bo dyletswydd gyfreithiol arnom i wneud hynny,** e.e. i gydymffurfio â gorchymyn llys
- **Cynghorau Cyllido**
- **Cyrff ariannu ymchwil**

## 8 Trosglwyddo'ch Gwybodaeth Dramor

Ni fyddwn yn trosglwyddo'ch data personol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd

## 9 Am faint o amser rydym yn cadw'ch gwybodaeth?

I sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol o ran diogelu data a phreifatrwydd, ni fyddwn yn cadw'ch gwybodaeth ond am gyfnod sy'n angenrheidiol at y dibenion a fu'n sail ei chasglu yn y lle cyntaf.

Yn y rhan fwyaf o achosion, byddwn yn cadw'ch gwybodaeth am 12 mis yn dilyn diwedd y broses recriwtio yn achos ymgeiswyr aflwyddiannus, ac i ymgeiswyr llwyddiannus, am y cyfnod rydych chi'n gweithio i ni ac am gyfnod o 7 mlynedd wedi hynny. Y rheswm dros gadw'ch data personol am y cyfnod hwn yw i gydymffurfio â gofynion HMRC ac oherwydd y gellir cyflwyno rhai hawliadau hyd at chwe blynedd ar ôl diwedd eich cyflogaeth/penodiad.

Yn achos rolau a ariennir gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), mae'n ofynnol i ni gadw data personol yn unol ag amserlen gadw berthnasol WEFO.

Darllenwch ein polisi/amserlen gadw [http://www.swansea.ac.uk/the-university/world-class/vicechancellorsoffice/compliance/recordsmanagement/] am fanylion pellach.

## 10 Hawliau unigolyn

Mae deddfwriaeth diogelu data'n darparu nifer o hawliau gwahanol i unigolion mewn perthynas â'u data. Rhestrir y rhain isod ac maent yn berthnasol i amgylchiadau penodol:

- **Cais am fynediad** i'ch gwybodaeth bersonol (sy'n cael ei adnabod yn gyffredin fel 'cais am fynediad gan wrthrych data”). Mae hyn yn rhoi hawl i chi dderbyn copi o'r wybodaeth bersonol rydym yn ei chadw amdanoch chi a gwirio ein bod yn ei phrosesu'n gyfreithlon.
- **Cais i gywiro'r** wybodaeth bersonol rydym yn ei chadw amdanoch chi. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni gywiro unrhyw wybodaeth anghyflawn neu anghywir sydd gennym amdanoch chi.
- **Cais i ddileu** eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ddileu neu dynnu gwybodaeth bersonol lle nad oes gennym reswm da dros barhau i'w

phrosesu. Mae gennych hawl hefyd i ofyn i ni ddileu neu dynnu'ch gwybodaeth bersonol lle'r ydych wedi arfer eich hawl i wrthwynebu i ni ei phrosesu (gweler isod).

- **Gwrthwynebu i brosesu** eich gwybodaeth bersonol, lle'r ydym yn dibynnu ar fuddiant dilys (neu fuddiannau trydydd parti) ac mae rhywbeth yn eich sefyllfa benodol sy'n golygu eich bod yn gwrthwynebu i brosesu ar y sail hon. Mae gennych hawl i wrthwynebu hefyd lle'r ydym yn prosesu'ch gwybodaeth bersonol at ddibenion marchnata uniongyrchol.
- **Cais i gyfyngu ar brosesu** eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni atal prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch chi, er enghraifft, os hoffech i ni gadarnhau ei chywirdeb neu'r rheswm dros ei phrosesu.
- **Cais i drosglwyddo** eich gwybodaeth bersonol ar ffurf gludadwy. Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosib y bydd gennych hawl i ofyn i ni ddarparu copi electronig o'ch gwybodaeth bersonol, at eich defnydd personol, neu i'w rhannu â sefydliad arall. Lle bo'r hawl hon yn berthnasol, gallwch ofyn i ni drosglwyddo'ch data personol yn uniongyrchol i'r parti arall os yw hyn yn ymarferol.

Os hoffech adolygu, gwirio, cywiro neu ofyn i ni ddileu'ch gwybodaeth bersonol, gwrthwynebu i ni brosesu'ch data personol neu ofyn i ni drosglwyddo copi o'ch gwybodaeth bersonol i barti arall, cysylltwch â:

Mrs Bev Buckley
Rheolwr Cymorth y Gyfarwyddiaeth a Swyddog Diogelu Data
Swyddfa'r Is-ganghellor
Prifysgol Abertawe
Parc Singleton
Abertawe
SA2 8PP
E-bost: dataprotection@abertawe.ac.uk

**Ni chodir ffi fel arfer**

Ni fydd rhaid i chi dalu ffi i gael mynediad i'ch gwybodaeth bersonol (neu i arfer unrhyw un o'r hawliau eraill). Fodd bynnag, gallwn godi ffi resymol os yw'n amlwg bod eich cais am fynediad yn ddi-sail neu'n eithafol. Neu gallwn wrthod eich cais mewn amgylchiadau o'r fath.

Yr hyn y gallwn ofyn i chi ei ddarparu

Gallwn ofyn i chi ddarparu gwybodaeth benodol i'n helpu i gadarnhau pwy ydych chi ac i sicrhau bod gennych hawl i gael mynediad i'r wybodaeth (neu i arfer unrhyw un o'ch hawliau eraill). Mae hyn yn fesur diogelwch priodol arall i sicrhau nad yw gwybodaeth bersonol yn cael ei datgelu i unrhyw un nad oes ganddo hawl i'w derbyn.

**11 <u>Eich gallu i dynnu cydsyniad yn ôl</u>**

Lle bo'ch data personol yn cael ei brosesu ar sail eich cydsyniad neu'ch cydsyniad penodol, mae gennych hawl i dynnu'ch cydsyniad i brosesu yn ôl unrhyw bryd. Gallwch wneud hyn drwy e-bostio'r Swyddog Diogelu Data yn dataprotection@abertawe.ac.uk. Ni fydd y ffaith eich bod yn tynnu cydsyniad yn ôl yn effeithio ar gyfreithlondeb unrhyw weithgarwch i brosesu'ch data personol ar sail cydsyniad a wnaed cyn i chi ein hysbysu eich bod am dynnu'ch cydsyniad yn ôl.

**12 Canlyniadau peidio â darparu'r data pan fo'r cais yn seiliedig ar ofyniad statudol neu o ran contract**

Ni fydd y Brifysgol yn gallu eich cofrestru'n aelod staff os ydych yn gwrthod darparu'r wybodaeth angenrheidiol pan fydd y cais yn seiliedig ar ofyniad statudol neu o ran contract.

**13 Cywirdeb**

Os yw eich manylion personol yn newid wrth i chi ymwneud â'r Brifysgol, dylech gysylltu ag aelod perthnasol o staff i roi gwybod iddo a rhoi'r wybodaeth gywir a diweddaraf iddo.

**14 Newidiadau i'r polisi preifatrwydd hwn**

Rydym yn adolygu'r ffyrdd rydym yn defnyddio eich gwybodaeth yn rheolaidd. Wrth wneud hyn, gallwn newid y math o wybodaeth rydym yn ei chasglu, sut rydym yn ei storio, â phwy rydym yn ei rhannu a sut rydym yn gweithredu arno.

O ganlyniad, bydd angen i ni newid y polisi preifatrwydd hwn o bryd i'w gilydd i sicrhau ei fod yn gywir ac yn gyfredol.

Byddwn yn adolygu'r polisi hwn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn gywir ac yn gyfredol. Diweddarwyd y polisi hwn ar 25 y Mai 2018.

**15 Amdanom Ni**

Prifysgol Abertawe, sefydliad a sefydlwyd gan Siarter Frenhinol o Barc Singleton, Abertawe, SA2 8PP

Ni yw rheolydd data'r wybodaeth rydych yn ei rhoi i ni. Mae'r term "rheolydd data" yn ymadrodd cyfreithiol a ddefnyddir i ddisgrifio'r unigolyn neu'r endid sy'n rheoli'r ffyrdd y caiff gwybodaeth ei defnyddio a'i phrosesu.

**16 Ble i gael mwy o wybodaeth am eich hawliau neu sut i gwyno**

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sy'n rheoleiddio materion diogelu data a phreifatrwydd yn y DU. Darperir llawer o wybodaeth ar eu gwefan ac maent yn sicrhau bod manylion cofrestredig pob rheolydd data fel ni ar gael i'r cyhoedd. Gallwch eu gweld yma http://www.ico.gov.uk/forthepublic.aspx.

Gallwch gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth unrhyw adeg am y ffordd rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth. Fodd bynnag, ein gobaith yw y byddech yn ystyried dod atom ni yn y lle cyntaf i ddatrys unrhyw broblem neu gŵyn sydd gennych. Byddwn bob amser yn gwneud ein gorau glas i ddatrys unrhyw broblemau a allai fod gennych.

**17 <u>Cysylltu â ni</u>**

Mae croeso i chi gysylltu â ni unrhyw bryd i drafod eich gwybodaeth.

Rydym wedi penodi Swyddog Diogelu Data i oruchwylio cydymffurfiaeth â'r hysbysiad preifatrwydd hwn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr hysbysiad preifatrwydd hwn, neu am sut rydym yn trin eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data:-

Mrs Bev Buckley
Rheolwr Cymorth y Gyfarwyddiaeth a Swyddog Diogelu Data
Swyddfa'r Is-ganghellor
Prifysgol Abertawe
Parc Singleton
Abertawe
SA2 8PP
E-bost: dataprotection@abertawe.ac.uk